**Vaughan Gething AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1106
Ein cyf/Our ref VG/09903/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau

Government.Committee.Business@llyw.cymru

26 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 16 Rhagfyr, yn ceisio fy sylwadau am y ddeiseb yr ydych wedi ei chael gan Rhys Bowler ynghylch cyflwyno cyllidebau iechyd personol a gofal personol yng Nghymru.

Y disgwyliad clir a diamwys yng Nghymru yw y dylai’r ddarpariaeth o ofal iechyd a gofal cymdeithasol fod yn ddi-dor, yn integredig, ac wedi ei bersonoli, mewn modd sy’n galluogi’r unigolyn i barhau i gael llais a rheolaeth lle bynnag y bydd yn dymuno gwneud hynny.

Fodd bynnag, fe wyddom, o’r profiadau personol sydd wedi cael eu rhannu gan Rhys Bowler ac eraill, fod y pryderon yn parhau ynghylch gallu pobl i ymarfer llais a rheolaeth dros eu gofal, mewn achosion lle na allant gael taliadau uniongyrchol o dan Ofal Iechyd Parhaus y GIG.

Rydym yn deall pwysigrwydd parhad a dilyniant gofal i’r unigolion hyn, yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed, a’r rheini sydd ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol cymhleth ac anghenion gofal personol. Deallwn hefyd y gofid mawr a achosir pan fo posibilrwydd bod unigolyn yn colli ei dîm o gynorthwywyr personol, sydd hwyrach wedi bod yn darparu gofal iddo ers nifer o flynyddoedd.

Rydym yn cydnabod y bydd galluogi pobl i gael rheolaeth dros eu trefniadau gofal a chymorth eu hunain, drwy ddarparu gofal mwy hyblyg, yn gwella iechyd a llesiant unigolion, yn ogystal ag iechyd a llesiant eu teuluoedd a’u gofalwyr.

Rydym wedi ymrwymo i edrych ar wahanol opsiynau sy’n ymwneud â’r rhyngwyneb rhwng Gofal Iechyd Parhaus a thaliadau uniongyrchol, gan gynnwys ffyrdd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol, ar gyfer derbynwyr y gofal hwnnw, a fyddai’n gyfwerth â chyllidebau iechyd personol. Byddwn yn edrych ar opsiynau deddfwriaethol tymor hir yn ogystal ag ystyried unrhyw drefniadau dros dro a allai wella llais a rheolaeth yn y tymor byr i’r rheini sy’n derbyn Gofal Iechyd Parhaus.



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae fy swyddogion wedi gwahodd Rhys Bowler i ymuno â gweithgor i ystyried yr opsiynau ar gyfer rhoi sylw i'r materion hyn, unwaith yr ydym wedi adfer digon o'r pandemig i ganiatáu inni ailddechrau ar y gwaith hwn.

Yn gywir,

**Vaughan Gething AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services